

Hawdd ei Ddeall






**Comisiwn Ffiniau
i Gymru**

**Boundary Commission
for Wales**

Etholaethau yng Nghymru

Gwneud newidiadau i etholaethau yng Nghymru ar gyfer pleidleisio yn etholiadau Senedd y DU



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan y **Comisiwn Ffiniau Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Adolygiad 2023 o Etholaethau Seneddol Canllaw i Adolygiad 2023'.

Mawrth 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch chi weld beth maen nhw'n feddwl ar **dudalen 23**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Comisiwn Ffiniau Cymru**. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych chi angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Address: Comisiwn Ffiniau Cymru

Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL

Ffôn: 029 2046 4819

E-bost: bcw@boundaries.wales

Gwefan: www.bcomm-wales.gov.uk




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y ddogfen yma, [cliciwch yma](#).

	Tudalen
Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma	2
Cynnwys	3
Cyflwyniad	4
Am etholaethau	4
Am Senedd y DU	5
Pam bod etholaethau yn newid	6
Am y Comisiwn Ffiniau Cymru	9
Y Rheolau	10
Enwi etholaethau	13
Effaith y rheolau newydd yma	14
Am Adolygiad 2023	16
Ar ôl yr adroddiad terfynol	17
Gwrandawiadau cyhoeddus	19
Ar ôl yr adroddiad terfynol	22
Geiriau Anodd	23

Cyflwyniad



Ni ydy **Comisiwn Ffiniau Cymru**.



Ein gwaith ydy edrych ar, a gwneud newidiadau i'r **etholaethau** yng Nghymru.

Etholaeth ydy ardal lle mae pobl sydd yn pleidleisio mewn etholiad yn byw.

Am etholaethau



Mae ardaloedd yn cael eu trefnu yn **etholaethau** i wneud yn siŵr bod pob rhan o'r **DU** yn cael eu cynrychioli yn iawn yn **Senedd y DU**.



Mae hyn yn bwysig oherwydd mae bywyd yn wahanol i wahanol grwpiau o bobl, mewn gwahanol rannau o'r DU.



Mae ganddyn nhw wahanol broblemau, pryderon ac anghenion. Mae angen meddwl am yr holl bethau yma yn **Senedd y DU**.



Felly, mae angen i bobl bleidleisio dros y person maen nhw'n meddwl sydd yn gallu sefyll i fyny orau drostyn nhw a'u hardal.

Am Senedd y DU



Mae **Senedd y DU** yn gwneud ac yn newid deddfau ar gyfer y DU gyfan. Mae'n gwneud yn siŵr bod y wlad yn cael ei rhedeg yn gywir.



Mae'n bwysig bod llais pawb yn cael ei glywed yn **Senedd y DU**.



Rydyn ni'n newid yr **etholaethau** ar gyfer etholiadau Senedd DU yn unig.



Mae etholiadau Senedd y DU yn cael eu galw yn etholiadau cyffredinol.



Dyma pryd mae pawb yn y DU yn cael cyfle i ddewis pwy sydd yn sefyll drostyn nhw yn y **Tŷ Cyffredin**. Dyma le mae AS yn gweithio yn **Senedd y DU**, Llundain.

Pam bod yr etholaethau yn newid




Mae **Senedd y DU** yn gosod y rheolau am sut mae **etholaethau** yn cael eu trefnu.




Maen nhw wedi newid y rheolau, sydd wedi cael eu hysgrifennu mewn deddf o'r enw **Deddf Etholaethau Seneddol 1986**.



Cafodd y rheolau yn y ddeddf yma eu newid yn 2020.



Roedd 40 o [etholaethau](#) yng Nghymru. Ond mae'r rheolau newydd yn dweud bod rhaid i hyn newid i 32.



Felly mae angen inni nawr edrych ar y ffordd orau i rannu Cymru yn 32 o [etholaethau](#).



Mae angen inni feddwl am ardaloedd yn ofalus. A rhoi pobl a lleoedd gyda heriau a phryderon tebyg gyda'i gilydd.



Rydyn ni eisiau i bobl Cymru fod yn rhan o hyn.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n clywed oddi wrth bobl sydd yn gallu dweud wrthyn ni sut mae bywyd yn yr ardal maen nhw'n byw ynddi. A gwrando ar eu syniadau am sut orau i rannu Cymru yn 32 o [etholaethau](#).



Mae hyn yn rhan bwysig iawn o'n gwaith dros y 2 flynedd nesaf.



Mae'n bwyisg deall mai dim ond ar gyfer **etholiadau** Senedd y DU rydyn ni'n newid yr etholaethau.



Fydd y newidiadau rydyn **ni'n** eu gwneud ddim yn effeithio ar yr **etholaethau** sydd gennym ni ar gyfer **etholiadau'r Senedd**. Dyma pryd rydych chi'n pleidleisio i'r bobl rydych chi eisiau i sefyll i fyny ar eich rhan yn Senedd Cymru, Caerdydd.



Mae 40 **etholaeth** ar gyfer **etholiadau'r Senedd**.



Fydd y newidiadau rydyn **ni'n** eu gwneud ddim yn effeithio ar gynghorau lleol yng Nghymru. Fyddan nhw ddim yn effeithio ar unrhyw wasanaethau neu drethi neu unrhyw ardaloedd pleidleisio eraill.

Am y Comisiwn Ffiniau Cymru



Rydyn ni'n grŵp o 4 o bobl sydd yn penderfynu lle dylai'r **etholaethau** fod yng Nghymru.



Mae Comisiwn Ffiniau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Fe fyddan nhw'n penderfynu ar yr **etholaethau** yn y lleoedd hynny.



Mae gan bob Comisiwn Ffiniau Farnwr Uchel Lys sydd yn edrych dros y gwaith. Yng Nghymru **Mrs Justice Jefford DBE** ydy ein Barnwr Uchel Lys.



Ein gwaith ni ydy ysgrifennu adroddiad sydd yn dweud lle rydyn ni'n meddwl y dylai'r 32 o **etholaethau** yng Nghymru fod.



Rhaid inni ysgrifennu'r adroddiad yma erbyn **1 Gorffennaf 2023**.



Fe fydd ein holl waith dros y 2 flynedd nesaf ar benderfynu lle y bydd yr **etholaethau** yn cael ei alw yn **Adolygiad 2023**.

Y rheolau




Mae rhai rheolau mae'n rhaid inni eu dilyn wrth benderfynu lle dylai'r **etholaethau** fod yng Nghymru.

Y rheol fwyaf pwysig ydy:



Fe ddylai pob etholaeth yng Nghymru gael rhwng **69,724 o bobl a 77,062 o bobl** sydd wedi cofrestru i bleidleisio.



Dim ond 1 **etholaeth** sydd yn gallu torri'r rheol yma. Ac **Ynys Môn** ydy honno. Mae hynny wedi cael ei roi i lawr yn y gyfraith.

Pethau eraill mae rhaid inni feddwl amdany'n nhw:



- **Daearyddiaeth.** Er enghraifft, maint a siâp lle. A pha mor hawdd ydy teithio a mynd o gwmpas yr ardal.



Fe fyddwn ni'n meddwl am bethau fel mynyddoedd, bryniau, llynnoedd ac afonydd sydd yn rhannu ardal.




- **Ffiniau cynghorau lleol.** A ffiniau tu mewn i'r ardaloedd hynny, fel **Wardiau Etholiadol** a chymunedau.

Wardiau Etholiadol ydy grwpiau llai o bobl mewn ardaloedd llai sydd yn pleidleisio am gynghorwyr lleol.



Fe fyddwn ni'n gwneud ein gorau i beidio rhannu'r mathau yma o ardaloedd.



Fe fyddwn ni'n ceisio gwneud yn siŵr bod **etholaethau** wedi'u gwneud i fyny o **wardiau etholaethol** sydd nesaf i'w gilydd.



Ond, dydyn ni ddim yn gallu meddwl am unrhyw newidiadau sydd yn gallu digwydd i ffiniau cynghorau lleol ar ôl **1 Rhagfyr 2020**.



- Lle mae **etholaethau** nawr.



- Cymunedau a gwasanaethau a sut mae pobl a lleoedd yn gweithio gyda'i gilydd.

Pethau fyddwn **ni** ddim yn meddwl amdany'n nhw:



- Sut mae pobl yn pleidleisio fel arfer mewn rhai ardaloedd. A sut mae hyn yn gallu effeithio ar ganlyniadau etholiad.



- Newidiadau i faint o bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn ardal ar ôl **2 Mawrth 2020**.

Enwi etholaethau



Os ydy **etholaeth** newydd fel hen etholaeth, fe fyddwn ni'n cadw'r hen enw.



Os ydyn ni'n gwneud **etholaeth** newydd, fe fydd yr enw yn cael ei seilio ar y prif gyngor yn yr ardal honno.



Fe fyddwn ni'n defnyddio Gogledd, De, Dwyrain a Gorllewin os ydyn ni'n defnyddio enw cyngor, ond mae llawer o bobl yn yr **etholaeth** yn byw y tu allan i'r ardal cyngor hwnnw. Er enghraifft, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Penfro.



Os ydy'r enw yn un Saesneg fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yna enw Cymraeg. Ac os ydy'r enw yn Gymraeg, fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yna enw Saesneg.

Fe fyddwn ni'n dweud os ydy **etholaeth** yn:



- **Etholaeth bwrdeistref** – i ardaloedd gyda llawer o drefi



- neu **etholaeth sir** – i ardaloedd gyda llawer o gefn gwlad

Effaith y rheolau newydd yma



Fe fydd yr **etholaethau** fel maen nhw nawr yn newid.



Fe fydd yr **etholaethau** ar gyfer Etholiadau'r Senedd ac Etholiadau Senedd y DU yn wahanol.



Fe fydd rhai **etholaethau** yn fawr, oherwydd mae llawer o gefn gwlad yn Nghymru lle mae ychydig o bobl yn byw.



Does dim llawer o bleidleiswyr yn rhai o Gymoedd De Cymru. Felly efallai bydd mwy nag 1 cwm mewn **etholaethau** newydd.



Efallai na fyddwn ni'n gallu osgoi rhannu ardaloedd cyngor i wneud **etholaethau** newydd.



Mae newidiadau bach i 1 **etholaeth** yn gallu cael effaith ar ardaloedd eraill.



Mae angen inni weithio gyda'n gilydd i wneud **etholaethau** sydd yn gweithio yn y ffordd orau i'r rhan fwyaf o bobl.



Am Adolygiad 2023

Mae'r adran yma yn esbonio beth fydd yn digwydd yn ystod yr adolygiad. A sut rydych chi'n gallu dweud beth rydych chi'n feddwl.



Mae'n bwysig iawn bod pobl yn gallu dweud beth maen nhw'n feddwl.

Fe fyddwn ni yn:



1. Ysgrifennu adroddiad gyda'n syniadau a'n awgrymiadau am le rydyn ni'n meddwl y dylai'r 32 o etholaethau fod.



Fy fyddwn ni'n rhoi mapiau i ddangos lle bydd yr **etholaethau**.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu darllen yr adroddiad yma. Fe fyddwn ni'n ei roi ar ein gwefan. Ac yn anfon copïau i leoedd mewn ardaloedd lleol lle mae pobl yn gallu eu gweld nhw. Er enghraifft mewn swyddfeydd cyngor lleol.



Rydyn ni'n gallu defnyddio lleoedd eraill fel llyfrgelloedd hefyd i helpu i wneud yn siŵr bod rhagor o bobl yn gallu gweld yr adroddiad.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu rhestr ar ein gwefan o'r holl leoedd rydych chi'n gallu cael yr adroddiad.



Fe fyddwn ni'n hysbysebu'r adroddiad ac yn ei rannu i gymaint o bobl ag sydd yn bosibl.

Cael dweud beth rydych chi'n feddwl



Os ydych chi'n anghytuno â rhywbeth, ceisiwch awgrymu ffordd rydyn ni'n gallu dod dros y pethau rydych chi'n anghytuno â nhw.

Mae'n well eich bod chi'n awgrymu ffordd o ddatrys y peth rydych chi'n anghytuno ag ef. Dim dweud eich bod chi'n anghytuno yn unig.



Mae'n bwysig meddwl am sut y mae eich syniad am **etholaeth** yn gallu effeithio ar gynlluniau ar gyfer **etholaeth** arall. Ac esbonio sut yr ydych chi yn gallu gwneud i'ch syniad weithio.

2. Ymgynghoriad cyntaf



Fe fyddwn ni'n rhoi **8 wythnos** i'r cyhoedd ddarllen yr adroddiad. Ac i ddweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl am ein syniadau. Rhaid gwneud hyn mewn ysgrifen.



Fe fyddwn ni'n anfon gwybodaeth allan gyda'r adroddiad cyntaf am sut mae pobl yn gallu dweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl, ac erbyn pa ddyddiad maen rhaid gwneud hyn.

3. Ail ymgynghoriad



Fe fyddwn ni'n casglu popeth mae pobl wedi'i ddweud yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf at ei gilydd. Fe fyddwn ni'n ei roi ar ein gwefan i bawb ei ddarllen.



Fe fyddwn ni'n gwneud hyn pan fydd yr ymgynghoriad cyntaf wedi gorffen, neu mor fuan â phosibl.




Pan fydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad cyntaf ar ein gwefan, fe fyddwn ni'n rhoi **6 wythnos** arall i bobl eu darllen. A dweud wrthyn ni beth maen nhw'n feddwl o'r hyn sydd wedi cael ei ddweud.



Mae hyn yn gallu cael ei wneud mewn ysgrifen. Fe fyddwn ni hefyd yn cynnal gwrandawiadau cyhoeddus. Cyfarfod ydy hwn lle mae pobl yn gallu siarad am beth sydd wedi cael ei ddweud hyd yn hyn. A dweud beth maen nhw'n feddwl.

Gwrandawiadau cyhoeddus



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid inni gynnal o leiaf **2 wrandawriad cyhoeddus**. Dydyn ni ddim yn gallu cynnal mwy na **5 gwrandawriad cyhoeddus**.



Fe fyddwn ni'n rhoi'r holl wybodaeth am y gwrandawiadau cyhoeddus ar ein gwefan, gan ddweud:


- Lle a phryd byddan nhw'n digwydd
- Sut rydych chi'n gallu archebu slot i siarad yn y gwrandawriad
- Beth fydd yn digwydd a sut maen nhw'n cael eu trefnu.



Fe fydd gwrandawiadau cyhoeddus yn cael eu ffrydio'n fyw ar ein gwefan. Mae hyn yn meddwl bydd pobl yn gallu gwylio fel mae'n digwydd.



Fe fyddwn ni'n meddwl am ffyrdd eraill o wneud hyn, os nad ydyn ni'n gallu cyfarfod mewn person oherwydd coronafeirws.



4. Yr ail adroddiad

Ar ôl y gwrandawiadau cyhoeddus, fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am beth sydd wedi cael ei ddweud.



Fe fydd yr adroddiad yn dweud a ddylen ni newid ein syniadau ar gyfer y 32 o [etholaethau](#), yn seiliedig ar beth mae pawb wedi ei ddweud.

5. Trydydd ymgynghoriad



Fe fyddwn ni'n rhoi popeth sydd wedi cael ei ysgrifennu a'i ddweud hyd yn hyn ar ein gwefan.



Fe fyddwn ni'n rhoi **4 wythnos** arall i bobl ddarllen hyn. A rhoi eu meddyliau am beth mae pobl wedi ei ddweud yn y gwrandawiadau cyhoeddus.



Fe fyddwn ni'n trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Fe fydd yr holl wybodaeth a'r gwrandawiadau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

6. Adroddiad terfynol



Ar ddiwedd y **trydydd ymgynghoriad**, fe fyddwn ni'n meddwl am ein hawgrymiadau terfynol ar gyfer lle y dylai **etholaethau** fod.



Fe fyddwn ni'n meddwl am bopeth rydyn ni wedi ei ddysgu a'i glywed yn ystod yr ymgynghoriadau a gwrandawiadau cyhoeddus.



Yna fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad terfynol. Fe fyddwn ni'n anfon hwn at **Lefarydd Tŷ'r Cyffredn erbyn 1 Gorffennaf 2023**.



Fe fydd yn mynd i **Senedd y DU**. A dyma ydy diwedd ein rhan ni o'r gwaith.

Ar ôl yr adroddiad terfynol



Ar ôl i'n hadroddiad terfynol fynd i **Senedd y DU**, fe fyddan nhw'n dilyn proses i wneud ein hawgrymiadau yn swyddogol.



Dydyn nhw ddim yn gallu newid ein hawgrymiadau yn yr adroddiad terfynol os nad ydyn ni'n dweud wrthyn nhw i wneud hynny.



Fe fydd yr **etholaethau** newydd yn dechrau yn yr etholiad cyffredinol **Ddydd Iau 2 Mai 2024**. Tan hynny, fe fyddwn ni yn defnyddio'r hen **etholaethau** os oes angen.

Geiriau Anodd

Etholaeth

Etholaeth ydy ardal lle mae pobl sydd yn pleidleisio mewn etholiad yn byw.

Wardiau Etholiadol

Wardiau Etholiadol ydy grwpiau llai o bobl mewn ardaloedd llai sydd yn pleidleisio am gynghorwyr lleol.

